CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Fawrth, 10fed Mai, 2022**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.40 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

7. DATGAN DERBYN SWYDD A PHARCHU'R COD YMDDYGIAD

Cyn i drafodaethau ar faterion y Cyngor gychwyn bu i bob aelod arwyddo ei fod hi/fo yn derbyn y swydd o fod yn Gynghorydd fel a ganlyn ac hefyd ddatgan eu bod am barchu'r Côd Ymddygiad.

Ward Bryncroes –	Y Cynghorydd Dylan Parry Jones
	Y Cynghorydd William Michael Strain
Ward Sarn Mellteyrn	Y Cynghorydd Elin Hughes
	Y Cynghorydd Carys Eilwen Williams
Ward Botwnnog	Y Cynghorydd Glyn Roberts
	Y Cynghorydd Glenys Williams

8. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod am gyfnod pellach yn dilyn cyfnod o etholiadau Cyngor Gwynedd a Chynghorau Cymuned. Llongyfarchodd Y Cynghorydd Gareth Williams ar gael ei ethol i gynrychioli Ward Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd a dymunodd yn dda iddo.

9. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

10. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD YN GYNHARACH AR Y NOSON

Oherwydd fod pum sedd wag ar y Cyngor **penderfynwyd** gohirio y materion a ganlyn i'w trafod yng nghyfarfod llawn o'r Cyngor ym mis Mehefin:

(a) I ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2022/23 (Ward Botwnnog)
Penderfynwyd ymhellach fod y Cadeirydd presennol, Y Cynghorydd Dylan Parry Jones, i barhau yn Gadeirydd hyd gyfarfod cyffredinol y Cyngor ym mis Mehefin.

(b) I ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2022/23 (Ward Sarn Mellteyrn)

(c) Adroddiad Y Cynghorydd Gareth Williams – aelod dros Fotwnnog ('nawr Pen Draw Llyn) ar Gyngor Gwynedd.

(ch) Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf (yn anffodus nid oedd Gwenan Griffith, y cynrychiolydd wedi cyflwyno ei ffurflen enwebiad felly nid yw'n aelod o'r Cyngor ar hyn o bryd).

(d) Cynrychiolwyr i wasanaethu ar:
Is-bwyllgor y Fynwent: Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ynghyd â Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd. Noder hefyd 'roedd Carys H. Evans ag Ifor Owen yn aelodau o'r Is-bwyllgor.
Un Llais Cymru – Y Cynghorydd Elin Hughes a Carys H. Evans.

11. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 11eg EBRILL, 2022**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Ebrill, 2022. (Cynnig Y Cynghorydd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn cytuno).

MATERION YN CODI

(a) Eitem 123 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Adroddodd y Clarc nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb gan Cwmni Clayton er anfon unwaith yn rhagor atynt.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(b) **Eitem 126 Archwilio'r Cyfrifon 2020/21**

Adroddodd y Clarc iddi dderbyn adroddiad yr Archwilwyr, Archwilio Cymru, brynhawn y Cyngor yn nodi mai "barn archwilio – ddiamod" dderbyniwyd er i rai materion gael eu crybwyll.

Gweler y ffurflen archwilio yn amgaeedig – **atodiad 'A1'**

Rhoddodd y Clarc fanylion y broses hir fu cyn i'r Cyngor dderbyn y farn gan yr Archwilwyr.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(c) **Eitem 127 Enwebiadau ar gyfer aelodaeth y Cyngor**

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc fod pum sedd wag ar y Cyngor sef:

Ward Bryncroes	2 sedd
Ward Sarn Mellteyrn	1 sedd
Ward Botwnnog	2 sedd

Yn dilyn derbyn cyfarwyddyd gan Gyngor Gwynedd deallwyd fod angen rhoddi rhybuddion i fyny yn y tair Ward ac hefyd ar wefan y Cyngor yn gwahodd ceisiadau gan unigolion i lenwi'r seddau hyn. Darparwyd y posteri a rhoddwyd dyddiad cau o 27ain Mai, 2022 ar gyfer derbyn ceisiadau.

Penderfynwyd

(i) Rhoddi rhybuddion Cymraeg i fyny yn y gwahanol Wardiau ac ar y wefan.

(ii) cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar Nos Lun, 6ed Mehefin, 2022, i drafod unrhyw gais fyddai i law.

12. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

(a) C22/0337/32/LL - Tre Wen, Botwnnog. Cais ar gyfer dymchwel adeilad amaethyddol presennol a chodi adeilad amaethydol newydd yn ei le.

(b) C22/0417/32/LL - Penrhyn Arms Hotel, Sarn Mellteyrn. Cais llawn ar gyfer dymchwel estyniadau ochr a chefn presennol, codi estyniad cefn newydd ar gyfer grisiau a newid defnydd cyn dafarn yn eiddo preswyl

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

13. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd

(a) Tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at:

Y tyllau sydd wedi datblygu unwaith yn rhagor ar y ffordd o Drefaes i Dyddyn Hen, Botwnnog.

Ymholid pa bryd fydd y ffordd o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes, yn cael ei hail-wynebu.

(b) Ysgrifennu at y Swyddog Cŵn yng Nghyngor Gwynedd fod rhywun/rhywrai yn gadael baw ci/cŵn ar y Comin ym Mryncroes ac hefyd fod rhywun/rhywrai yn taflu gwastraff gardd bytholwyrdd i'r gongl ger Wal y Fynwent. Gofyn a fyddai yn gallu ymweld a'r safle a dangos ei bresenoldeb yno.

Yn y cyswllt hwn nodwyd fod gwaith draeniad i'w wneud ar gyffordd Erw Bach, Botwnnog yn ystod mis Mai.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

14. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw anfoneb angen i'w thalu.